Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Ystalyfera – Bro Dur

**Ysgol Gymraeg Ystalyfera**
**Heol Ynys y Darren**
**Glan Yr Afon**
**Ystalyfera**
**SA9 2DY**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Ystalyfera - Bro Dur

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymraeg Ystalyfera - Bro Dur |
| Awdurdod lleol | Castell-nedd Port Talbot |
| Iaith y darparwr | Cyfrwng Cymraeg |
| Math o ysgol | Pob Oed |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 1491 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 1262 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 36 |
| Nifer yn y chweched ddosbarth (os yn berthnasol) | 176 |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd<br><br>*(Canran cenedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol yn y sector uwchradd dros y tair blynedd diwethaf yw 20.4%)* | 14.6% |
| Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd ag angenion addysgol arbennig (a)<br><br>*(Canran cenedlaethol y disgyblion sydd ag angenion addysgol arbennig yn y sector uwchradd yw 21.5%)* | 19.1% |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 45.2% |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | Hydref 2020 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad hwn | 28 Chwefror 2022 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

Daw'r data yma o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Flynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn yr arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

(a) Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur yn gymuned ofalgar, gynhwysol Gymreig lle mae cefnogaeth effeithiol i ddiwallu anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol disgyblion. Gwelwyd hyn yn arwyddocaol yn ddiweddar pan roedd angen cynhaliaeth benodol ar ddisgyblion trwy gyfnod pandemig ac wrth ddychwelyd i'r ysgol o dan gyfyngiadau Covid-19.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn rhyngweithio'n hapus a naturiol gyda'i gilydd yn y gwersi ac amseroedd chwarae. Maent yn cyfathrebu'n gwrtais a hyderus gydag oedolion ac yn hynod groesawgar tuag at ymwelwyr. Mae'r disgyblion yn falch o'u hysgol a'u Cymreictod. Mae Senedd yr ysgol yn hynod o weithgar ac yn sicrhau bod rôl allweddol gan ddisgyblion wrth wneud penderfyniadau am waith yr ysgol.

Yn y canolfannau lles, y 'Gilfach' a'r 'Gorwel', mae staff yn cynllunio'n fedrus ac yn darparu ymyraethau gwerthfawr. Mae darpariaeth flaengar ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau ymddygiad a phroblemau emosiynol yn 'Ystafell Stwnsh' a cheir mynediad at gyfres o weithgareddau pwrpasol o dan arweiniad staff a chyfoedion. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at ddatblygu disgyblion yn ddinasyddion egwyddorol gwybodus, cyflawn.

Mae'r pennaeth yn egnïol, brwdfrydig ac yn angerddol dros ddyfodol yr ysgol. Mae ganddi hi a'r tîm arwain weledigaeth glir o ran hybu Cymreictod a datblygu disgyblion moesgar sydd â balchder yn eu hunain a'u cymunedau lleol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn cyfleu'n ddigon clir pa agweddau y dylid eu dathlu fel agweddau unigryw y ddau safle nac i ba raddau y disgwylir i staff ar draws yr ysgol gydweithio. Mae arweinwyr wedi gwneud a chynnal gwelliannau i ddarpariaeth lles disgyblion yn llwyddiannus. Eto, nid yw cynllunio ar gyfer gwella bob amser yn ddigon penodol nac effeithiol.

Mae'r berthynas rhwng athrawon a disgyblion yn un gadarnhaol iawn ac mae'r rhan fwyaf o staff yn llwyddiannus wrth greu awyrgylch waith sy'n annog a chynnal disgyblion. Drwyddi draw, maent yn darparu profiadau addas i ddisgyblion sy'n galluogi'r mwyafrif o ddisgyblion i wneud cynnydd cadarn wrth fynd trwy'r ysgol a datblygu'u medrau'n briodol. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn siarad yn hyderus ac aeddfed, ac yn ysgrifennu'n fedrus at wahanol gynulleidfaoedd. Maent yn darllen yn bwrpasol gan fynegi ystyr yn glir. Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau rhif cadarn ac maent yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau digidol.

Er bod cryfderau yn ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol, mae diffygion cyffredin yng nghynllunio lleiafrif o athrawon. Yn gyffredinol, nid yw lleiafrif o weithgareddau yn y dosbarth na thasgau penodol yn cynnig digon o her i ddisgyblion.

## Argymhellion

A1 Sicrhau darpariaeth fwy cydlynol ar draws yr ysgol ar gyfer datblygu medrau disgyblion

A2 Gwella agweddau o addysgu er mwyn cynyddu lefel yr her a darparu profiadau amrywiol i ddisgyblion i sicrhau cynnydd addas

A3 Miniogi prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â datblygu disgyblion egwyddorol gwybodus, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Ar fynediad i'r dosbarth derbyn yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn arddangos medrau llythrennedd a rhifedd sy'n is na'r disgwyl ar gyfer eu hoedran. Gwna lawer o ddisgyblion gynnydd priodol yn eu dysgu gyda mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth fynd trwy'r ysgol. Mae llawer o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gwneud cynnydd addas yn erbyn eu targedau o ganlyniad i gefnogaeth ac ymyrraeth effeithiol. Un nodwedd arbennig yw sut mae disgyblion bregus yn ffynnu ac yn gwneud cynnydd cadarn. Mae hyn oherwydd y modd y mae'r disgyblion hyn yn cael eu cymell a'u cynnal i lwyddo.

Yn gyffredinol, mae mwyafrif o ddisgyblion yn adalw gwybodaeth flaenorol yn gadarn ac yn cymhwyso hynny'n dda i waith newydd, er enghraifft wrth enwi rhannau system resbiradaeth mewn gwyddoniaeth neu ym Mlwyddyn 2 wrth ddisgrifio'u hoff gymeriadau a thrafod llyfr Pobl y Pants o'r Gofod. Pan nad yw disgyblion yn gwneud cynnydd priodol, mae hynny yn aml oherwydd natur yr addysgu.

O gychwyn eu haddysg yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando â pharch ar ddisgyblion eraill ac athrawon. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn arddangos medrau llafaredd cadarn yn y Gymraeg a Saesneg. Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn barod i gyfrannu ar lafar a'r mwyafrif yn cynnig atebion estynedig gyda rhesymeg i'w hymateb, er enghraifft yn yr adran gynradd wrth ddehongli ebychnod a sicrhau eu bod yn pwysleisio elfennau allweddol gyda'u llais. Mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud defnydd o eirfa gyfoethog a thermau pynciol cywir yn y Gymraeg, er enghraifft wrth drafod agweddau cadarnhaol a negyddol am chwaraeon yn y cyfryngau yn eu gwersi addysg gorfforol. Mae'r mwyafrif yn trafod gyda'i gilydd yn effeithiol ond mae tueddiad gan ychydig i gynnig atebion ar draul eraill. O ganlyniad, mae ychydig o ddisgyblion yn llai hyderus i fynegi eu hunain ar lafar ar adegau ac yn ymddangos yn dawedog mewn dosbarthiadau. Mae ychydig yn defnyddio iaith fratiog ac yn tueddu i droi i'r Saesneg mewn sefyllfaoedd llai ffurfiol. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn siarad yn hyderus ac yn aeddfed wrth drafod eu gwaith a bywyd yn yr ysgol.

Ar draws yr ysgol, mae llawer yn darllen yn bwrpasol i gywain gwybodaeth. Er enghraifft, mae disgyblion Blynyddoedd 4 a 5 yn defnyddio ystod o strategaethau darllen wrth edrych ar y cyd-destun a defnyddio geiriau cyfarwydd i'w helpu i ddod o hyd i ystyr geiriau newydd. Mae llawer o ddisgyblion o oedran cynradd yn darllen ar goedd yn hyderus gyda goslef addas. Ychydig o gyfleoedd gaiff disgyblion oedran uwchradd i ddarllen ar goedd ond mae llawer yn fedrus wrth leoli ffeithiau a dod i gasgliadau dilys o ddarllen tystiolaeth. Maent yn deall ystyr testunau yn dda ac agweddau penodol o ysgrifennu perswâd. Mae llawer yn dangos dealltwriaeth gadarn o gymeriadau a themâu mewn nofelau a cherddi ac, yn eu gwersi Cymraeg, maent yn dadansoddi arddull yn gelfydd. Er bod dealltwriaeth dda gan lawer o gynnwys testunau Saesneg, maent yn llai sicr wrth drafod arddull ac effaith dewisiadau ieithyddol. Yn gyffredinol ar draws y pynciau, nid yw uwch fedrau darllen disgyblion wedi datblygu'n ddigonol er mwyn gallu dehongli a darllen rhwng y llinellau yn effeithiol.

Wrth ysgrifennu yn y Gymraeg a Saesneg, mae mwyafrif o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio geirfa addas. Mae llawer yn arddangos medrau ysgrifennu cryf ac yn ysgrifennu'n effeithiol at ddibenion gwahanol ac ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol. Mae gan y disgyblion mwyaf galluog eirfa gyfoethog a soffistigedig. Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ystod oedran yn ysgrifennu'n rhwydd yn estynedig ac yn cyfathrebu gyda mynegiant clir. Maent yn trefnu eu gwaith yn synhwyrol gan ddefnyddio paragraffau'n gywir. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o dechnegau ysgrifennu megis empathi, perswadio a defnyddio cymariaethau.

Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n gynyddol hyderus mewn ffurfiau amrywiol, gan arddangos gafael gadarn ar atalnodi, ac amrywio eu brawddegau er mwyn creu effaith. Er enghraifft, maent yn creu adroddiad ffeithiol manwl yn dilyn ymweliad â chofeb trychineb Pwll y Gleision fel rhan o'u gwaith ar y thema 'yma ac acw'. Mae llawer o ddisgyblion oedran uwchradd yn hyderus wrth drin a thrafod llunyddiaeth ac yn gallu defnyddio geirfa techneg ffilm yn llwyddiannus a chywir, er enghraifft wrth ddisgrifio effeithiau camera i ddarlunio emosiynau a theimladau'r cymeriad yn y ffilm Hedd Wyn. Fodd bynnag, mae lleiafrif y disgyblion yn wallus wrth ysgrifennu gan wneud camgymeriadau sillafu a gramadeg esgeulus ac nid yw ychydig yn ysgrifennu mewn brawddegau llawn wrth ymateb i ddarllen.

Mae medrau rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda ar draws yr ystod oedran. Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau rhif, siâp a mesur cadarn. Er enghraifft, yn eu gwersi mathemateg, mae disgyblion yn cyfrifo cyfanswm yr arian a chymharu elw ar ôl gwneud gwahanol fuddsoddiadau yn llwyddiannus. Mae llawer o ddisgyblion yn dadansoddi data yn effeithiol, yn plotio graffiau'n gywir ac yn eu defnyddio i greu casgliadau synhwyrol. O oedran cynnar, mae ganddynt ddealltwriaeth gref o fesur, er enghraifft wrth fesur taldra oedolion gan ddefnyddio brigau fel unedau ansafonol.

Mae disgyblion o bob oed yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau digidol. Amlygir hyn ar draws pynciau'r cwricwlwm, er enghraifft yn eu defnydd o feddalwedd arbenigol i gynllunio cynnyrch, cyfansoddi cerddoriaeth neu addasu lluniau digidol. Mae disgyblion yr adran gynradd yn datblygu medrau digidol, meddwl a datrys problemau yn dda, er enghraifft trwy lywio tegan rhaglenadwy i fynd ar draws grid yn llwyddiannus.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu eu medrau meddwl a chreadigol yn gryf pan gânt y cyfle. Er enghraifft, gwelir lefel uchel o ddyfeisgarwch wrth ymarfer ar gyfer cyflwyniad drama ac mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn effeithiol yn eu gwersi celf. Mae disgyblion oedran cynradd yn ddyfeisgar a chreadigol wrth, er enghraifft, greu modelau yn cynrychioli Cymru a Cymreictod ar ddydd gŵyl Dewi.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn rhyngweithio'n hapus a naturiol gyda'i gilydd yn ystod gwersi ac amseroedd egwyl a chinio. Maent yn cyfathrebu'n gwrtais a hyderus gydag oedolion ac yn hynod groesawgar tuag at ymwelwyr. Mae'r disgyblion yn falch o fod yn rhan o gymuned deuluol Gymreig Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac yn gwybod pwy i droi atynt pan fydd rhywbeth yn eu poeni. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar y we ac yn deall beth ddylent ei wneud petai rhywbeth yn eu pryderu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd ac arwyddocâd cynnal eu lles emosiynol a'u iechyd meddwl, yn enwedig yn sgil cyfnod y pandemig. Mae llawer o ddisgyblion yn arddangos sensitifrwydd ac yn cynnal a chefnogi eu ffrindiau a'u cymheiriaid pan fydd rhywbeth yn eu poeni. Mae mwyafrif y disgyblion hŷn yn ymwybodol o bwysigrwydd cynnig arweiniad i'w cyd-ddisgyblion iau, gan gyflwyno'u hunain fel modelau rôl cadarnhaol iddynt. Er enghraifft, mae rhai disgyblion y chweched dosbarth yn cynorthwyo yn ystafelloedd 'Stwnsh' a 'Chynnydd' er mwyn cefnogi iechyd meddwl disgyblion iau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweld budd mewn gweithgarwch corfforol ac mae llawer yn mwynhau gweithgareddau yn yr awyr agored. Mae'r amrediad eang o weithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol yn cael effaith gadarnhaol iawn ar eu iechyd a'u lles. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud dewisiadau doeth o ran bwyta ac yfed yn iach, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blwyddyn 3 egluro pa ddiodydd sydd fwyaf iachus.

Mae llawer o'r disgyblion yn cyfrannu'n llawn i fywyd a gwaith yr ysgol ac yn credu bod yr ysgol yn gwrando ar eu barn ac yn ymateb i'w dyheadau a'u syniadau. Maent yn teimlo bod hawliau pawb yn cael eu parchu a bod hyn yn cyfrannu at greu cymuned ofalgar a chynhwysol. Mae Senedd yr ysgol yn trafod materion allweddol yn aeddfed. Maent yn cymryd perchnogaeth ac yn arwain wrth godi ymwybyddiaeth disgyblion o faterion fel gwerth y Gymraeg ym myd gwaith a pharchu hunaniaeth unigolion LHDTC.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos agwedd gadarnhaol tuag at eu dysgu. Ar draws yr ysgol, mae perthynas agos ac adeiladol y disgyblion gyda'r athrawon a'r staff cefnogi yn hyrwyddo eu hyder yn llwyddiannus.

O'r cychwyn cyntaf yn y dosbarth meithrin, er y cyfnodau clo, mae'r plant yn ymgartrefu'n fuan ac yn dysgu rhannu a chyd chwarae gyda'u cymheiriaid yn y gwahanol ardaloedd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn ymfalchïo yn eu gwaith ac yn mwynhau dangos enghreifftiau y maent yn teimlo'n falch ohonynt. Er enghraifft, maent yn mwynhau sgwrsio a mynegi barn am wahanol fwydydd Cymreig y buont yn eu profi fel rhan o ddathliadau Gŵyl Dewi.

Pan gânt y cyfle, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o oedran uwchradd yn cydweithio'n aeddfed ar eu tasgau. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 8, maent yn gwrando'n ofalus ar syniadau eu cymheiriaid ac yn ystyried eu barn wrth drafod protest trigolion mynydd Epynt.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn dangos dycnwch a dyfalbarhad er mwyn cyflawni eu gwaith yn llwyddiannus. Er enghraifft, ym Mlynyddoedd 5 a 6 wrth iddynt ddehongli data er mwyn paratoi cyflwyniad wedi ei seilio ar dywydd mewn gwahanol leoliadau ar draws y byd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda yn ystod gwersi, gweithgareddau grŵp ac o amgylch adeilad a thiroedd yr ysgol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Prif gryfder addysgu ar draws yr ysgol yw'r berthynas gref a chadarnhaol rhwng athrawon a disgyblion. Mae bron pob athro yn meithrin perthynas waith agos a chynhaliol gyda'u disgyblion ac mae'r rhan fwyaf yn creu awyrgylch gwaith lwyddiannus. Maent yn gefnogol o'u disgyblion, yn annog eu cyfranogiad ac yn canmol eu hymdrechion.

Mewn ychydig o sesiynau, lle mae'r addysgu'n gryf ac effeithiol iawn, mae'r athrawon yn frwdfrydig am eu pwnc neu faes dysgu ac maent yn trosglwyddo'r brwdfrydedd hwn gydag egni ac awch i'r disgyblion. Mae'r athrawon hyn yn rhoi cyflwyniadau difyr ac maent yn sicrhau profiadau dysgu diddorol ac adeiladol. Mae tasgau wedi'u cynllunio'n effeithiol i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau a'u gwybodaeth trwy fanteisio ar gyfleoedd i gyd-drafod, i feddwl ac i ddatrys problemau.

Mae llawer o athrawon yn meddu ar wybodaeth gadarn sy'n eu galluogi i gyflwyno'u pwnc neu faes dysgu yn hyderus. Maent yn fodelau iaith da ac yn sicrhau cymorth ieithyddol priodol i ddisgyblion er mwyn iddynt gyfrannu ar lafar neu wneud gwaith ysgrifenedig yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn darparu geirfa a therminoleg benodol ac yn gosod strwythurau ysgrifennu buddiol ar gyfer tasgau siarad ac ysgrifennu. Mae llawer o athrawon yn cyflwyno'n eglur, yn cynnig esboniadau clir ac yn rhoi cefnogaeth fuddiol wrth i ddisgyblion weithio.

Mae'r mwyafrif o athrawon yn cynllunio cyfleoedd buddiol i ddisgyblion wneud cynnydd. Maent yn sicrhau bod nodau gwersi yn bwrpasol ac yn cynllunio tasgau sydd gan amlaf yn adeiladu ar ei gilydd. Maent yn paratoi ac yn gwneud defnydd o adnoddau perthnasol i gefnogi'r addysgu a'r dysgu ac mae hyn yn cynnwys ystod eang o adnoddau digidol.

Er bod cryfderau yn ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol, mae diffygion cyffredin yng nghynllunio lleiafrif o athrawon. Mae hyn yn bennaf yn ymwneud â natur y tasgau a chyflymder y dysgu. Yn benodol, nid yw'r athrawon hyn yn cynllunio'u sesiynau'n ddigon gofalus i sicrhau profiadau dysgu amrywiol a her briodol. Mae hyn yn golygu nad yw disgyblion yn cyflawni digon neu'n gwneud cystal cynnydd ag y gallent o fewn sesiynau a thros amser. Mewn sesiynau sy'n llai llwyddiannus, nid oes digon o gyfle i ddisgyblion ddylanwadu ar eu dysgu, cydweithio ar dasgau neu arddangos a rhannu eu gwaith gyda'r dosbarth. Yn y sesiynau hyn, gosodir unai gormod o dasgau byr, ailadroddus neu dasgau syml sy'n parhau'n rhy hir. Yn rhy aml, nid yw gweithgareddau'n annog disgyblion i feddwl drostynt eu hunain nac i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn holi cwestiynau byr a bachog i wirio dealltwriaeth disgyblion mewn sesiynau ac er mwyn symud y dysgu ymlaen. Yn y lleiafrif o sesiynau, mae athrawon yn gofyn cwestiynau treiddgar a miniog er mwyn procio cof a dealltwriaeth disgyblion a'u hannog i feddwl yn ddyfnach. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad medrau meddwl a medrau datrys problemau disgyblion. Mae lleiafrif yr athrawon yn crynhoi'r dysgu yn llwyddiannus ar ganol ac ar ddiwedd

sesiynau. Er enghraifft, maent yn casglu adborth buddiol gan ddisgyblion neu'n rhoi cyfle iddynt fodelu atebion a gofyn i eraill arfarnu ansawdd yr ymatebion.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn adnabod cryfderau yng ngwaith disgyblion ac yn rhoi sylwadau ysgrifenedig priodol ar ei gynnwys. Maent yn gyson wrth ganmol am ymdrech a gwaith da. Fodd bynnag, mae amrywiaeth yn ansawdd ac effeithiolrwydd adborth athrawon. Mae'r mwyafrif o athrawon yn rhoi adborth defnyddiol iddynt ar sut i wella eu gwaith ac yn sicrhau eu bod yn ymateb yn briodol. Mewn achosion eraill, mae'r sylwadau'n arwynebol, yn rhy fyr neu'n rhy hael.

Mae gan yr ysgol weledigaeth glir ar gyfer Cwricwlwm i Gymru sydd wedi ei seilio ar godi uchelgais disgyblion a chynnig profiadau sy'n datblygu hunaniaeth disgyblion ynghyd â'u dealltwriaeth o'r ardal leol, Cymru a'r byd. Mae yna gynllunio strategol pwrpasol gyda'r ddau safle wedi teilwra eu darpariaeth i adlewyrchu cyd-destun unigryw y ddwy ardal ac ymateb i anghenion y disgyblion. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae'r adran uwchradd wedi cynllunio gweithgareddau gwerthfawr ar hanes a phrofiadau cymunedau pobl duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i adlewyrchu'r cyswllt rhwng yr hen ddiwydiannau lleol a gwledydd fel Jamaica. Yn yr adran gynradd, ceir enghreifftiau o gynllunio bwriadus ar gyfer datblygu medrau'r disgyblion yn unol ag egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r profiadau dysgu yn amrywiol a chydlynus, wedi eu seilio ar themâu ysgogol sydd yn plethu nifer o feysydd dysgu a phrofiad.

Mae'r cwricwlwm cyfredol yn adeiladu'n gynhyrchiol ar ddysgu blaenorol disgyblion. Cynigir profiadau cyfoethog i ddisgyblion yr adran gynradd gan gynnwys cyfleoedd gwerthfawr i ymweld â'r ardal leol. Er enghraifft, mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn ymweld â chartref yr henoed er mwyn cynnal sesiynau celf gyda'r trigolion i ddathlu perthnasoedd cadarn yn y gymdeithas. Mae hyn yn magu hyder y disgyblion, eu medrau cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg, a'u medrau creadigol a chymdeithasol. Yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth, mae dewis eang o gyrsiau. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o gyrsiau ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog, fel mathemateg ychwanegol a dwy iaith fodern, a chyrsiau galwedigaethol fel trin gwallt a harddwch, a chwrs saer coed.

Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol ar draws y cwricwlwm ac mae'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn briodol. Mae gan yr ysgol ymyraethau buddiol er mwyn cefnogi disgyblion sydd â medrau gwan. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd yn ddigon strategol.

Elfen nodedig o ddarpariaeth yr ysgol yw'r ystod werthfawr o brofiadau allgyrsiol sydd ar gael. Mae hyn yn cynnwys clybiau caredigrwydd, codio, gwaith pren, dawns, ffasiwn a syrffio. Yn ogystal, trefnir ymweliadau addysgol diddorol a theithiau preswyl lleol a thramor. Cymraeg yw cyfrwng iaith yr addysgu yn y rhan fwyaf o achosion ac mae'r ysgol yn darparu'n effeithiol ar gyfer datblygu Cymreictod disgyblion. Mae darpariaeth yr ysgol i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliant Cymreig yn gryfder, er enghraifft trwy'r daith addysgol i ymweld â Beddgelert a chartref Hedd Wyn yn Nhrawsfynydd.

Mae gan yr ysgol raglen addysg bersonol a chymdeithasol fuddiol a chynhwysfawr. Mae'r rhaglen yn cydblethu'n effeithiol gyda'r cwricwlwm iechyd a lles a'r gwersi

'Dysgu gorau, dysgu byw' er mwyn cefnogi datblygiad medrau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion. Mae arweinwyr yn addasu'r ddarpariaeth yn gyson er mwyn diwallu anghenion cyfredol disgyblion ac ar ôl cyrchu barn disgyblion ar y ddarpariaeth. Gwneir defnydd da o asiantaethau allanol fel nyrs ysgol, yr heddlu, y frigâd dân a siaradwyr gwadd o wahanol elusennau i gyfoethogi'r ddarpariaeth. O ganlyniad, rhoddir cefnogaeth gref i ddisgyblion i wneud dewisiadau iach o ran ffordd o fyw.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur yn gymuned ofalgar, gynhwysol Gymreig lle mae cefnogaeth effeithiol i ddiwallu anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol disgyblion. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu i fod yn unigolion egwyddorol ac yn dysgu am eu hanes diwydiannol a'r diwylliant Cymreig.

Yn y canolfannau lles, mae staff y Gilfach a'r Gorwel yn cynllunio'n fedrus ac yn darparu ymyraethau gwerthfawr i wella medrau rhifedd a llythrennedd disgyblion ac i gefnogi anghenion emosiynol. Mae myrdd o raglenni ymyrraeth pwrpasol yn weithredol ac wedi eu teilwra at anghenion unigol y disgyblion. Mae disgyblion sydd wedi gweld ailintegreiddio yn dilyn y cyfnodau clo yn heriol yn elwa o'r sesiynau ymyrraeth er mwyn datblygu eu hyder.

Mae darpariaeth flaengar ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau ymddygiad a phroblemau emosiynol yn ystafelloedd 'Stwnsh' a 'Chynnydd' a cheir mynediad at gyfres o weithgareddau pwrpasol, amserol, gan gynnwys mewnbwn oddi wrth glwb pêl-droed Abertawe. Mae'r ddarpariaeth hon yn sicrhau bod y disgyblion yn cael cyfle i dderbyn cefnogaeth yn ystod y diwrnod ysgol. Defnyddir siartiau teimladau a dyddiaduron gan ddisgyblion oed cynradd i gofnodi eu hemosiynau yn rheolaidd.

Mae trefniadau diogelu ac amddiffyn plant yr ysgol yn gryf. Trefnir hyfforddiant priodol a chyson i staff ar faterion diogelu. O ganlyniad, mae staff yn deall eu rôl a'u cyfrifoldeb i gadw disgyblion yn ddiogel. Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn i ymateb i unrhyw bryder am ddisgybl ac mae staff perthnasol yn cydweithio'n effeithiol gydag asiantaethau statudol allanol. Agwedd nodedig o waith yr ysgol yw'r ddarpariaeth ar gyfer hybu cydraddoldeb a goddefgarwch a dathlu amrywiaeth.

Mae'r cydweithio pwrpasol rhwng y Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol [CADY] a'u hadnabyddiaeth drylwyr o'r disgyblion yn sicrhau bod cefnogaeth effeithiol yn cael ei darparu. Derbynnir mewnbwn priodol oddi wrth nifer o asiantaethau a phartneriaid er mwyn sicrhau darpariaeth safonol. Mae'r ysgol yn paratoi ar gyfer gweithredu'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg, er enghraifft drwy sicrhau bod staff wedi derbyn hyfforddiant ar ddulliau disgybl-ganolog. Mae proffiliau un dudalen y disgyblion ADY yn cynnwys gwybodaeth berthnasol ynglŷn â sut i gefnogi'r disgyblion. Mae'r ysgol yn monitro cynnydd am disgyblion ag ADY ac yn adrodd i rieni yn rheolaidd.

Mae Senedd yr ysgol yn weithgar iawn ac yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn llywio penderfyniadau am ddyfodol yr ysgol. Mae aelodau hŷn y Senedd wedi darparu arweiniad a chefnogaeth fuddiol i ddisgyblion Blwyddyn 9 wrth ddewis pynciau TGAU. Mae nifer helaeth o is-bwyllgorau wedi cael eu sefydlu er mwyn sicrhau bod barn disgyblion yn cael dylanwad cryf ar waith yr ysgol. Yn ogystal â

phwyllgor eco a phwyllgor Cymreictod, mae'r disgyblion wedi dangos blaengaredd wrth sefydlu is-bwyllgor hawliau plant, pwyllgor LHDTC+ a phwyllgor cwricwlwm. Mae'r pwyllgor Cymreictod wedi codi ymwybyddiaeth y disgyblion o gerddoriaeth Gymraeg drwy chwarae caneuon cyfoes amseroedd egwyl a chinio.

Mae'r ysgol yn cyflwyno agweddau crefyddol a moesol mewn modd cyfoes a pherthnasol i'r disgyblion, megis gwasanaeth ar y Grawys yn annog disgyblion i leihau amser sgrin. Mae rhaglen 'Munud i Feddwl' yn sicrhau neges foesol wythnosol i ddisgyblion ar destunau megis yr Archesgob Tutu, hawliau pobl dduon ac a ddylai Prydain gynorthwyo pobl yr Wcráin.

Mae'r ysgol yn darparu amrediad gwerthfawr o weithgareddau i ddisgyblion yn y chwaraeon a'r celfyddydau. Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd cyfoethog i ddatblygu eu doniau creadigol, er enghraifft drwy greu peintiadau pastel wedi'u hysbrydoli gan eu hardal leol yn arddull yr artist lleol Josef Herman.

Mae gan yr ysgol systemau cadarn er mwyn monitro a hybu presenoldeb da. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda'r awdurdod addysg lleol er mwyn cynnig cefnogaeth i ddisgyblion ailintegreiddio'n llwyddiannus yn sgil y pandemig. Mae trefniadau ar gyfer cefnogi ymddygiad priodol disgyblion yn gadarn iawn ac eir i'r afael ag unrhyw ymddygiad annerbyniol yn chwim. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn arbennig yn eu gwersi ac o gwmpas yr ysgol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn egnïol a brwdfrydig ac yn uchelgeisiol ac angerddol dros ddyfodol yr ysgol. Mae'r tîm arwain yn ei chefnogi'n gadarn. Mae ganddynt weledigaeth glir o ran hybu Cymreictod a datblygu disgyblion moesgar sydd â balchder yn eu hunain a'u cymunedau lleol. Coleddir y weledigaeth hon yn llawn gan holl randdeiliaid yr ysgol.

Mae gan uwch arweinwyr ddealltwriaeth dda o'r prif gryfderau a'r meysydd i'w gwella. Mae llawer o arweinwyr canol â dealltwriaeth gadarn o safonau disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth o fewn eu meysydd cyfrifoldeb. Gallant siarad yn hyderus am yr agweddau hyn ar sail tystiolaeth maent wedi ei chasglu'n uniongyrchol o weithgareddau sicrhau ansawdd sydd yn digwydd yn rheolaidd. Mae arweinyddiaeth gadarn wedi cael effaith gadarnhaol ar sawl agwedd ar waith yr ysgol, gan gynnwys datblygu diwylliant diogelu llwyddiannus, darpariaeth lles gynhwysfawr a gwelliannau ym medrau disgyblion er gwaethaf heriau'r pandemig.

Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae'r cydweithio rhwng staff y gwahanol safleoedd wedi cynyddu. Er enghraifft, mae'r cydlynwyr ADY yn cydweithio'n fuddiol â'i gilydd ac mae arsylwi gwersi wedi bod rhwng staff y cynradd a'r uwchradd. Mae uwcharweinyddiaeth ar draws y safleoedd hefyd wedi cysoni, gydag uwch arweinwyr yr holl safleoedd yn cwrdd yn wythnosol, a mwy o weithgareddau a phrosesau sydd yn uno'r safleoedd megis gwasanaethau ar-lein cyffredin i holl gymuned yr ysgol. Serch hyn, nid yw arweinwyr yn cyfleu'n ddigon clir pa agweddau y dylid eu dathlu fel agweddau unigryw safleoedd unigol nac i ba raddau y disgwylir i staff ar draws yr ysgol gydweithio.

Mae’r drefn rheoli llinell yn addas. Mae cyfarfodydd cyson wedi’u trefnu sydd yn darparu cyfleoedd buddiol i arweinwyr gwrdd â’u rheolwyr llinell, ond mae anghysondeb o ran sut mae arweinwyr yn gweithredu’r drefn hon. Mae rolau a chyfrifoldebau arweinwyr wedi eu diffinio ac mae staff a disgyblion yn deall prif gyfrifoldebau cyffredinol arweinwyr. Fodd bynnag, nid yw rolau a chyfrifoldebau arweinwyr yn gwbl glir nac wedi eu dyrannu’n rhesymegol nac yn gytbwys. Er enghraifft, mae gwahaniaeth rhwng cyfrifoldebau arweinwyr canol ar y ddau safle ac mae disgwyliad i rai aelodau’r uwch dîm arwain  weithredu fel pennaeth adran ar ben eu cyfrifoldebau traws ysgol.

Mae gan yr ysgol gynllun a chalendr clir ar gyfer hunanwerthuso. Caiff y rhaglen hon ei gweithredu’n gyson ar draws yr ysgol ac mae’n cynnwys gweithgarwch buddiol fel arsylwi gwersi a chraffu ar waith disgyblion. Mae pob arweinydd yn cymryd rhan yn y prosesau hyn ac mae llawer yn defnyddio’r canfyddiadau’n effeithiol er mwyn gwerthuso’u gwaith. Serch hyn, nid yw systemau ar gyfer casglu gwybodaeth yn canolbwyntio'n ddigon penodol ar fedrau disgyblion nac ansawdd y ddarpariaeth. Mae gor-ddibyniaeth ar weithdrefnau cydymffurfio yn rhwystro arweinwyr rhag cael darlun digon manwl o’r cryfderau a’r meysydd sydd angen eu datblygu.

Mae cyswllt addas rhwng canfyddiadau hunanwerthuso’r ysgol a’r prif flaenoriaethau ar gyfer sicrhau gwelliant. Ers penodi’r pennaeth presennol, ceir un cynllun gwella priodol ar gyfer yr ysgol, gyda phrif flaenoriaethau cyffredin ar draws yr ysgol gyfan. Mae ymateb i effaith y pandemig yn uchel ar flaenoriaethau’r ysgol. Er enghraifft, maent wedi gwneud a chynnal gwelliannau i ddarpariaeth lles disgyblion yn llwyddiannus. Eto, nid yw cynllunio ar gyfer gwella bob amser yn ddigon penodol nac effeithiol. Mae’r blaenoriaethau gwella yn rhy eang ac nid ydynt yn canolbwyntio’n ddigon clir ar y prif faterion sydd angen mynd i’r afael â nhw, megis her yn yr addysgu a rolau arweinyddol. Yn ogystal, nid oes cerrig milltir clir ac mae’r trefniadau monitro yn rhy benagored i sicrhau atebolrwydd llawn.

Mae system briodol ar gyfer rheoli perfformiad staff a chyfleoedd buddiol iddynt adolygu cynnydd yn erbyn eu targedau dair gwaith y flwyddyn. Mae’r amcanion yn cyd-fynd â blaenoriaethau’r ysgol ac anghenion datblygiad proffesiynol unigolion. Mae’r amcanion hyn yn aml yn eang iawn neu’n rhy weithredol ac nid yw’r dulliau o fonitro ac arfarnu cynnydd bob amser yn canolbwyntio digon ar eu heffaith ar ddisgyblion.

Mae gan yr ysgol arlwy eang o gyfleoedd datblygiad proffesiynol i staff. Mae’r cyfleoedd hyn yn cwmpasu gweithgareddau ysgol gyfan ar agweddau o addysgu a'r cwricwlwm newydd. Mae cyfleoedd amrywiol i unigolion ennill profiadau a chael hyfforddiant mewn meysydd sydd yn berthnasol i’w datblygiad personol nhw. Er enghraifft, ym Mro Dur, mae pob athro yn elwa o gymryd rhan mewn gwaith ymchwil personol. Mae trefn glir ar gyfer cefnogi staff sydd angen cymorth pellach i wella eu harfer, ac mae arweinwyr yn teilwra’r ddarpariaeth hon i anghenion yr unigolion hyn.

Mae’r pennaeth a’r rheolwr busnes yn rheoli cyllideb yr ysgol yn ofalus ac mae gan yr ysgol warged ar hyn o bryd. Mae eu gwariant ar y grantiau niferus maent wedi eu derbyn dros y blynyddoedd diwethaf yn briodol ac wedi cyfrannu’n gadarnhaol at ddarpariaeth lles yr ysgol yn fwyaf arbennig.

Mae’r llywodraethwyr yn gefnogol iawn o’r ysgol ac yn ymgymryd yn frwdfrydig â’u rolau. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o lawer o’r prif gryfderau a’r meysydd i’w gwella. Maent yn cyfoethogi’u gwybodaeth ynghylch yr ysgol drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau megis teithiau dysgu a chyfarfodydd ag arweinwyr canol. Maent yn darparu her addas i’r ysgol ar amrywiaeth o agweddau ac yn gweithredu’n effeithiol fel ffrind beirniadol. Maent wedi dechrau cynllunio ar gyfer gwella’r ddarpariaeth ar gyfer yfed a bwyta’n iach ond yn cydnabod bod hyn yn faes i’w wella, yn enwedig faint o fwyd mae disgyblion yn ei dderbyn yn y bwytai.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad Cyhoeddi: 05/05/2022